Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Buddsoddi Moesegol 2025-2030

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English

## CYNNWYS

|CYNNWYS ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Pwrpas ..... 3
3. Cwmpas ..... 3
4. Polisi ..... 3
Cyfrifoldebau: ..... 3
4.2 Trosolwg ..... 3
4.3 Portffolios Buddsoddi ..... 3
4.3.1 Adolygiad Portffolio ..... 4
4.4 Buddsoddiadau uniongyrchol ..... 4
4.4.1 Ail-fuddsoddi cronfeydd wedi'u gwaredu ..... 4
4.5 Effaith ar y Polisi Buddsoddi ..... 4
5. Monitro ..... 4
6. Camddefnydd o'r Polisi ..... 5
7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill ..... 5

## 1. Cyflwyniad

Mae Polisi Buddsoddi Moesegol y Brifysgol yn adlewyrchu gwerthoedd moesegol ei myfyrwyr, staff, cymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a'n holl randdeiliaid eraill ynghylch penderfyniadau buddsoddi.

## 2. Pwrpas

Mae'r Brifysgol yn croesawu rhoddion gan gyn-fyfyrwyr, cymwynaswyr corfforaethol a chefnogwyr eraill. Er mwyn galluogi i bwrpas addysgol y rhoddion hyn gael ei gyflawni, bydd y Brifysgol o bryd i'w gilydd yn buddsoddi arian dros ben a gwaddolion gyda sefydliadau trydydd parti.

Yn ogystal, bydd y Brifysgol o bryd i'w gilydd yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n alinio â chyfeiriad strategol y Brifysgol.

Mae'r Polisi Buddsoddi Moesegol yn amlinellu'r ffordd y bydd y Brifysgol yn ystyried canlyniadau moesegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei buddsoddiadau.

Mae gan y Polisi Buddsoddi Moesegol yr un pwysiad â pholisïau buddsoddi eraill yn y Brifysgol.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gwmpas llawn ei bortffolio buddsoddi, ac fel arfer bydd hyn yn cwmpasu buddsoddi cronfeydd Gwaddol mewn portffolios cyfalaf cyfranddaliadau a buddsoddiad uniongyrchol mewn cwmnïau gan y Brifysgol.

Mae'r polisi yn ystyried canllawiau cyhoeddedig y Comisiwn Elusennau ar fuddsoddi cronfeydd elusennol yn foesegol ac yn gymdeithasol gyfrifol.

Mae'r polisi yn canolbwyntio'n unig ar fuddsoddiadau uniongyrchol a wneir gan y Brifysgol ac nid yw'n ymestyn i addysgu a dysgu, ymchwil, menter neu weithgareddau a gwasanaethau corfforaethol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â buddsoddi.

## 4. Polisi

### Cyfrifoldebau:

Mae gan y Tîm Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol berchnogaeth o'r Polisi Buddsoddi Moesegol.

Mae gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd trwy'r Cynllun Buddsoddi Moesegol sydd dan eiddo'r Prif Swyddog Ariannol

### 4.2 Trosolwg

Mae'r Brifysgol yn ceisio ymgysylltu adeiladol â'r sectorau preifat a chyhoeddus, a phwrpas hyn yw gwneud y mwyaf o fudd y cyhoedd a chynaliadwyedd ariannol.

Yn unol â hyn, mae'r Brifysgol yn ceisio gwneud buddsoddiadau mewn ffyrdd sy'n gyson â'i gwerthoedd a'i strategaeth.

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i fuddsoddi mewn cwmnïau lle mae gweithgareddau'r cwmni'n foesegol gyson â'i hamcanion addysgol ac ymchwil. Wrth wneud hynny, bydd y Brifysgol yn ystyried ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol wrth ddewis, cadw a dad-ddewis ei buddsoddiadau

### 4.3 Portffolios Buddsoddi

Ar hyn o bryd nid yw'r Brifysgol yn dal unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol nac yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn cyfranddaliadau cwmnïau rhestredig.

.

### 4.3.1 Adolygiad Portffolio

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol yn adolygu’r portffolios buddsoddi yn flynyddol i sicrhau cydymffurfio â’r polisi.

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar adroddiadau portffolio mis Gorffennaf a bydd cadarnhad o gydymffurfiaeth yn cael ei roi i’r Tîm Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol.

### 4.4 Buddsoddiadau uniongyrchol

Bydd y Brifysgol o bryd i’w gilydd yn buddsoddi arian mewn cwmnïau sy’n alinio â’i hamcanion. Bydd y cwmnïau hyn fel arfer yn gwmnïau ifanc ac nid ydynt wedi’u rhestru.

Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi o’r natur hon, bydd y Brifysgol yn ystyried ymrwymiad y cwmni i gynaliadwyedd a’i aliniad ag amcanion moesegol y Brifysgol.

Ni fydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn unrhyw gwmni sydd wedi dangos record neu ymagwedd negyddol at berfformiad moesegol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Yn unol â’r Cynllun Buddsoddi Moesegol, ni fydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn unrhyw gwmni sy’n gysylltiedig ag arfau, tanwydd ffosil neu sy’n mynd yn groes i gyfreithiau domestig neu ryngwladol

Yn unol â’r Cynllun Buddsoddi Moesegol, mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i sgrinio allan buddsoddiadau mewn cwmnïau sy’n gysylltiedig â’r diwydiant ffiniau

Mae’r Brifysgol yn ffafrio mentrau cymdeithasol, cwmnïau ag arferion cyflogaeth da, gan ddangos parch at hawliau dynol, ymgorffori cyfrifoldeb corfforaethol yn eu gweithrediadau o ddydd i ddydd, gyda’r nod o leihau eu heffaith ecolegol a chyfrannu at y gymuned ehangach.

Yn ogystal â ffactorau confensiynol rydym hefyd yn ystyried i ba raddau mae cwmni yn deall ac yn rheoli'r bygythiadau a’r cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol y mae’n eu hwynebu. Mae’r persbectif ychwanegol hwn yn ein galluogi i nodi cwmnïau sy’n gweddu’n ddelfrydol i fodloni heriau’r dyfodol.

### 4.4.1 Ail-fuddsoddi cronfeydd wedi’u gwaredu

Mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi unrhyw arian wedi’i gwaredu mewn prosiectau ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i’r gymuned naill ai ar y campws neu o fewn radiws 50 milltir i’r safle PCYDDS.

### 4.5 Effaith ar y Polisi Buddsoddi

Mae polisi buddsoddi’r Brifysgol yn amlinellu bwriad i wneud y mwyaf o enillion ei buddsoddiadau i’r Brifysgol.

Mae’r enillion hyn yn cael eu diffinio fel enillion ariannol ac mewn cyd-destun buddion cymdeithasol ehangach.

Mae’r Polisi Buddsoddi Moesegol felly wedi’i alinio â pholisi buddsoddi cyffredinol y Brifysgol lle gall ei gymhwyso arwain at enillion ariannol posibl is na chyfleoedd buddsoddi amgen.

## 5. Monitro

Mae cydymffurfiaeth â’r Polisi Buddsoddi Moesegol yn cael ei gynnal trwy adolygiad blynyddol o fuddsoddiadau presennol a goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog Ariannol ar unrhyw fuddsoddiadau newydd a wneir yn ystod y flwyddyn.

Mae adroddiad cadarnhau blynyddol yn cael ei roi i'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd gan y Prif Swyddog Ariannol.

## 6. Camddefnydd o'r Polisi

Bydd diffyg cydymffurfio â'r polisi yn cael ei adrodd i Bwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Brifysgol a Chyngor y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn ystyried camau gweithredu i unioni diffyg cydymffurfio, gall camau gweithredu gynnwys gwaredu'n llawn ac ar unwaith lle mae'r tor-polisi yn sylfaenol a lle nad yw ymgysylltu â chwmnïau wedi bod yn llwyddiannus.

## 7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

Rheoliadau Ariannol PCYDDS

## Awdur(on) y polisi:

**Sarah Evans** **Teitl Swydd:** Prif Swyddog Ariannol

**Dan Priddy** **Teitl Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a’r Amgylchedd

## Wedi’i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026


Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in English and Welsh

## Rheolydd fersiwn y ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| | Fersiwn wedi'i diweddaru gyda Phrif Swyddog Ariannol yn dechrau yn y swydd | DP | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws presennol y Polisi: cymeradwywyd

Ydy'r Polisi yn berthnasol i: HE

Dyddiad cadarnhau: 15 / 05 / 2026

Yn effeithiol o: 15 / 05 / 2026

Dyddiad adolygu'r polisi: 15 / 05 / 2027

I'w gyhoeddi: Ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David